



DWP

Department for
Work and Pensions

Adran Gwaith
a Phensiynau

Lles yn yr 21^{ain} Ganrif

Crynodeb gweithredol

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Ar ôl llai na thri mis o Lywodraeth Glymbleidiol arloesol, rydym am ddechrau gwneud newidiadau gwirioneddol i'r system budd-daliadau drwy ei symleiddio a'i gwneud yn fwy effeithlon, gyda'r nod o leihau nifer y budd-daliadau a gaiff eu hawlio a lleihau biwrocratiaeth a chynnig cymorth ariannol sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod gwaith yn talu. Lai na blwyddyn yn ôl, dywedais oni fyddai gwleidyddion a gweision sifil yn gweithredu i ddiwygio ein system budd-daliadau gymhleth ac aneffeithlon, yna siarad gwag fyddai'r trafodaethau pellach am waith fel y llwybr gorau allan o dlodi.

Yn rhy aml mae llywodraethau wedi ceisio mynd i'r afael â thlodi ond dim ond wedi rheoli ei symptomau yn y pen draw. Mae'r newidiadau a amlinellir yma yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth na ellir mynd i'r afael â thlodi drwy drin y symptomau yn unig.

Mae'r system budd-daliadau wedi llunio penderfyniadau'r bobl dlotaf mewn modd sydd wedi arwain cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth at fywyd o ddibyniaeth a thlodi. Mae hyn wedi costio biliynau o bunnoedd i'r wlad bob blwyddyn mewn taliadau arian parod a biliynau yn fwy er mwyn talu am gostau cymdeithasol y methiant hwn.

Yr unig ffordd o wneud gwahaniaeth cynaliadwy yw drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi: teuluoedd yn chwalu; addysg yn methu; bod yn gaeth i gyffuriau ac alcohol; dyledion personol difrifol; a dibyniaeth economaidd.

Mae'r problemau hyn yn gydberthnasol a gellir dod o hyd i ffyrdd o'u datrys mewn cymdeithas yn gyffredinol. Fodd bynnag, rhaid i ni gydnabod bod gan y system budd-daliadau rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi cyfrifoldeb personol a helpu i ddatrys problemau mewn cymdeithas.

Byddwn yn dod â'r diwylliant o ddiweithdra a dibyniaeth sydd wedi gwneud cymaint o niwed i i unigolion, teuluoedd a chymunedau cyfan i ben. Ein nod yw newid system sydd yn rhy aml wedi tanseilio gwaith a'r dyheadau sy'n gysylltiedig â gwaith, a hynny am byth.

Drwy fynd ati i roi gwaith wrth wraidd cymorth i bobl o oedran gweithio, rydym am greu contract newydd â phobl Prydain, sef y rheswm pam ein bod yn ymgynghori â hwy yn y papur hwn. Byddwn yn eu helpu i ddod o hyd i waith ac yn gwneud yn siŵr bod gwaith yn talu. Yn gyfnewid am hyn, bydd disgwyl iddynt hwy chwilio am waith a'i dderbyn pan fydd ar gael. Ni fyddwn yn gadael i bobl gael budd-daliadau hirdymor am flynyddoedd mwyach heb gysylltu â hwy na'u cynorthwyo. Mae a wnelo'r contract hwn â chymdeithas gyfrifol yn cydweithio i wella ansawdd bywyd y rheini sy'n waeth eu byd.



Y Gwir Anrhydeddus

Iain Duncan Smith AS

Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

Crynodeb gweithredol

1. Yn aml, mae'r system budd-daliadau ar ei ffurf bresennol yn darparu cymhellion i barhau ar fudd-daliadau yn hytrach na chael swydd. Rydym am helpu pobl i symud i mewn i waith a gwneud cynnydd ynddo, tra'n parhau i gynorthwyo'r rheini sydd â'r angen mwyaf.
2. Amlinellodd y Gyllideb y camau cyntaf tuag at gyflawni'r nodau hyn. Fodd bynnag, mae graddau dyhead y Llywodraeth yn y maes hwn yn golygu bod angen ystyried diwygiadau strwythurol mwy sylfaenol. Mae'r papur hwn yn nodi methiannau allweddol y system budd-daliadau ac yn amlinellu'r amcanion y dylai'r system geisio eu cyflawni yn ein barn ni. Yna rydym yn canolbwyntio ar sut y gallem geisio mynd i'r afael â'r methiannau hyn ac yn amlinellu rhai materion allweddol y bydd angen i ni ymdrin â hwy er mwyn darparu system budd-daliadau ar gyfer y 21ain ganrif.
3. Mae'r fframwaith rydym yn ei ystyried yn welliant mawr ar ddiwygiadau blaenorol am ei fod yn ystyried y system cymorth gwladwriaethol i'r rhai sy'n waeth eu byd yn gyffredinol ac fe'i cynlluniwyd i gael effaith gadarnhaol ar ymddygiad. Rydym am gynnig y cymhellion mwyaf posibl i weithio tra'n parhau i ddiogelu'r rheini sydd â'r angen mwyaf.
4. Mae'r ddogfen drafod hon yn amlinellu enghreifftiau dangosol o ddiwygio strwythurol, gan gynnwys opsiynau a gyflwynir gan sefydliadau allanol.
5. Gallai diwygiadau strwythurol o'r fath ein galluogi i wneud rhai newidiadau sylfaenol i sicrhau bod gwaith bob amser yn talu a bod hynny i'w weld yn amlwg. Gallem gyflawni hyn drwy gyflwyno rheolau newydd o ran faint o'u henillion y gall pobl ei gadw heb golli budd-daliadau a thrwy dynnu budd-daliadau yn ôl wrth i enillion godi ar un gyfradd resymol. Byddai hyn yn golygu y câi pobl sy'n cymryd y camau cyntaf i mewn i gyflogaeth drwy wneud ychydig oriau o waith yr wythnos fuddiannau sylweddol am eu hymdrechion. Byddai hefyd yn symleiddio'r system yn fawr.

6. Nid ydym yn ceisio cynnig llai o gymorth i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed, ond mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod cymorth wedi'i dargedu'n dda, ei fod yn deg i'r rheini sydd ar gyflog isel a bod yr arian cywir yn cael ei roi i'r bobl gywir.
7. Yn olaf, rydym yn ystyried sut y gallem ddefnyddio dulliau awtomatig doeth i ddarparu cymorth ac osgoi oedi biwrocraidd gwastrafflyd wrth dalu sy'n golygu bod symud i mewn i waith yn achosi straen diangen. Mae technegau tebyg eisoes yn gyffredin yn y sector preifat a dylent wneud y system budd-daliadau yn gynt ac yn fwy ymatebol i'r cwsmer ac yn fwy effeithlon i'r trethdalwr heb gynyddu costau i fusnes.
8. Byddai ein syniadau yn gyson â champau posibl i wneud agweddau ar y system lles yn fwy lleol. Byddwn hefyd yn ystyried mesurau unigol i gynnig mwy o gymhellion i weithio a lleihau'r graddau y mae unigolion yn dibynnu ar les a chostau hynny ochr yn ochr ag ystyried diwygio strwythur y system.
9. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, ein gobaith yw cyflwyno deddfwriaeth yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd i ddiwygio'r system budd-daliadau a Chredydau Treth er mwyn gwneud i waith dalu. Byddem yn croesawu barn ar y ffordd orau o gynllunio system o'r fath er mwyn cyflawni ein hegwyddorion arfaethedig ac fel rhan o'n dyletswyddau i ystyried cydraddoldeb.

ISBN 978-1-84947-407-8

(h) Hawlfraint y Goron 2010

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Gorffennaf 2010

www.dwp.gov.uk